



Rhestr wirio i wneud cais am Gredyd Cynhwysol

Defnyddiwch y rhestr wirio hon i'ch helpu i baratoi ar gyfer eich cais **Credyd Cynhwysol**.

Gellir defnyddio'r ddogfen hon hefyd ochr yn ochr â'r **canllaw fideo Cam wrth Gam** ar **wefan Symud i UC**. Gallwch weld hwn trwy sganio'r cod QR a ddangosir yma. Mae gan bob cam stamp amser cyfatebol ar gyfer y fideo er mwyn i chi allu neidio i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch, i'ch helpu i gadw ar y trywydd iawn.



Unwaith y byddwch wedi derbyn eich **llythyr Hysbysiad Trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol**, bydd angen i chi wneud cais am Gredyd Cynhwysol i barhau i gael cymorth ariannol.
Bydd terfyn amser yn eich llythyr.

CAM 1: Creu eich cyfrif ar-lein

(o 00:38 yn y fideo)

Dewiswch enw defnyddiwr a chyfrinair



Rhowch eich cwestiynau diogelwch

Mae angen y rhain i gadw'ch cyfrif yn ddiogel



Llenwch yr adran 'amdanoch chi' (enw a chyfeiriad)



Rhowch a chadarnhewch eich cyfeiriad e-bost



Rhowch a chadarnhewch eich rhif ffôn symudol



Rhowch gyfeiriad eich cartref



Adran **wedi'i chwblhau**



CAM 2: Dechrau eich cais

[\(o 02:10 yn y fideo\)](#)

Efallai y byddwch angen manylion am:

- gostau tai a threfniadau rhent
- unrhyw gynilion ac incwm, gan gynnwys budd-daliadau eraill
- pobl sy'n byw gyda chi

Oes gennych chi bartner?

Sut i wneud cais ar y cyd (os yw hyn yn berthnasol i chi)

Adran **wedi'i chwblhau**

CAM 3: Gwneud cais ar y cyd gyda'ch partner

[\(o 02:58 yn y fideo\)](#)



Os ydych yn rhan o gwpl, bydd angen i chi a'ch partner wneud **cais ar y cyd**.

Bydd angen i'r ddau ohonoch greu cyfrif

Bydd pwy bynnag sy'n gwneud hyn gyntaf yn cael cod cysylltu


Yna dylai'r partner arall yn y cwpl ddefnyddio'r cod hwn pan fyddant yn cofrestru ar gyfer eu cyfrif

Rhowch enw cyntaf eich partner

Rhowch god post eich partner

Cwblhewch eich cais ar y cyd gyda'ch gilydd

Adran **wedi'i chwblhau**



CAM 4: Rhestr o bethau i'w gwneud eich cyfrif

(o 03:59 yn y fideo)



Yn ystod y cais, gofynnir y cwestiynau isod i chi, felly gwnewch yn siŵr bod gennych y wybodaeth wrth law i'w hateb. Efallai y bydd angen i chi lwytho copïau o rai o'r dogfennau hyn i wirio eich hunaniaeth a'ch amgylchiadau (fel mantolenni banc neu gytundeb tenantiaeth).

Beth yw eich cenedligrwydd?

☐

Ydych chi wedi bod allan o'r DU yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf?

☐

Oes gennych chi gostau tai, gan gynnwys Treth Gyngor?

Bydd angen i chi hefyd roi gwybod i ni pa fath o lety rydych yn byw ynddo

☐

Faint o blant ydych chi am wneud cais amdanynt?

☐

Beth yw eich statws gwaith a'ch enillion presennol?

☐

Pa fathau o arian, cynilion a buddsoddiadau sydd gennych?

☐

Incwm, taliadau neu fudd-daliadau eraill

☐

Ydych chi mewn addysg neu hyfforddiant?

☐

Oes gennych chi unrhyw salwch, anabledd neu gyflyrau iechyd parhaus sy'n effeithio ar eich gallu i weithio?

☐

Ydych chi'n cael budd-dal gofalwr?

☐

Manylion cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd

☐

Adran **wedi'i chwblhau**

☐

CAM 5: Cadarnhau eich manylion

[\(o 05:43 yn y fideo\)](#)

Yn yr adran hon, gallwch wirio eich bod wedi rhoi'r wybodaeth gywir i'r cwestiynau uchod.

Gofynnir i chi gadarnhau bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyflawn ac yn gywir ar dudalen y datganiad terfynol.

Os bydd eich amgylchiadau'n newid, mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau cyn gynted â phosibl.

Yna gofynnir i chi a wnaeth unrhyw un eich helpu i wneud eich cais.

Adran **wedi'i chwblhau**



CAM 6: Sut i edrych ar eich dyddlyfr

[\(o 07:30 yn y fideo\)](#)

Byddwch nawr yn gallu defnyddio'ch dyddlyfr i weld hanes eich cyfrif Credyd Cynhwysol a gadael negeseuon ar gyfer Credyd Cynhwysol. Byddwch yn gallu rhoi gwybod am newid yn eich amgylchiadau, gweld eich rhestr o bethau i'w gwneud a gwirio pryd y bydd eich taliad nesaf.

Adran **wedi'i chwblhau**



CAM 7: Cadarnhau eich hunaniaeth

[\(o 07:53 yn y fideo\)](#)

Gofynnir i chi ddilysu eich hunaniaeth ar-lein gan ddefnyddio dau fath o ID (Pasbort y DU, Hunanasesiad neu gyfeirnod credyd).

Peidiwch â phoeni os nad oes gennych y mathau hyn o hunaniaeth, bydd botwm i glicio lle gallwch drefnu apwyntiad i ddilysu eich hunaniaeth.

Bydd angen i chi ddilysu eich hunaniaeth hefyd er mwyn cael diogelwch trosiannol, os oes gennych hawl iddo.

Adran **wedi'i chwblhau**



CAM 8: Derbyn eich ymrwymiad hawlydd

(o 08:55 yn y fideo)

Gofynnir i chi gytuno i rai ymrwymadau, yn seiliedig ar eich amgylchiadau personol. Mae hyn yn cynnwys mewngofnodi i'ch cyfrif i gwblhau'r holl weithgareddau a rhoi gwybod am newidiadau yn eich amgylchiadau.

Adran **wedi'i chwblhau**



Mwy o wybodaeth

Mae rhagor o adnoddau ar-lein ar gael i'ch cefnogi i wneud eich cais Credyd Cynhwysol, teipiwch yr urls isod i'ch porwr dewisol.

Creu cyfrif ar-lein:

<https://www.gov.uk/credyd-cynhwysol/sut-i-wneud-cais>

Mae rhai camau y gallwch eu cymryd i sicrhau eich bod yn barod i wneud eich cais:

Gweld pa ddogfennau a gwybodaeth y byddwch eu hangen cyn i chi ddechrau eich cais:

<https://www.gov.uk/credyd-cynhwysol/sut-i-wneud-cais>

Defnyddio cyfrifiannell budd-daliadau annibynnol i amcangyfrif faint y gallech ei gael ar Gredyd Cynhwysol:

<https://www.gov.uk/guidance/tax-credits-and-some-benefits-are-ending-move-to-universal-credit.cy>

Byddwch yn ymwybodol, amcangyfrifon yn unig yw'r rhain ac efallai na fyddant yn cynnwys y diogelwch ariannol y gallech fod yn gymwys i'w gael.

Darganfod pa gymorth a chyngor annibynnol sydd ar gael i'ch helpu gyda'ch cais:

<https://ucmove.campaign.gov.uk/cy/gredyd-cynhwysol/cymorth-a-chyngor-annibynnol/>

Rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau:

<https://www.gov.uk/hysbysu-newid-amgylchiadau-budd-daliadau>



Gallwch arbed eich cais ar unrhyw adeg a **bydd gennych 28 diwrnod i'w gwblhau, unwaith y byddwch wedi creu eich cyfrif ar-lein.**

